Online Research @ Cardiff

This is an Open Access document downloaded from ORCA, Cardiff University's institutional repository: https://orca.cardiff.ac.uk/id/eprint/91830/

This is the author's version of a work that was submitted to / accepted for publication.

Citation for final published version:

Gramich, Katie Yvonne ORCID: https://orcid.org/0000-0003-1939-7231 2015. Dwy Gymraes, Dwy Gymru: Hanes Bywyd a Gwaith Gwyneth Vaughan a Sara Maria Saunders, gan Rosanne Reeves; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014 [Book Review]. Llên Cymru 38 (1) , pp. 106-108. file

Publishers page:

Please note:
Changes made as a result of publishing processes such as copy-editing, formatting and page numbers may not be reflected in this version. For the definitive version of this publication, please refer to the published source. You are advised to consult the publisher's version if you wish to cite this paper.

This version is being made available in accordance with publisher policies. See
http://orca.cf.ac.uk/policies.html for usage policies. Copyright and moral rights for publications made available in ORCA are retained by the copyright holders.

information services
gwasanaethau gwybodaeth

***Dwy Gymraes, Dwy Gymru: Hanes Bywyd a Gwaith Gwyneth Vaughan a Sara Maria Saunders*, gan Rosanne Reeves; Caerdydd: Gwasg Prifysgol Cymru, 2014; tt. xviii + 245; pris: £24.99.**

Y gyfrol ddiweddaraf yn y gyfres 'Astudiaethau Rhywedd yng Nghymru' yw'r llyfr anarferol a darllenadwy hwn gan Rosanne Reeves. Pwrpas y gyfres yw 'llenwi bwlch mewn gwybodaeth . . . ynghylch nodweddion ac effeithiau'r gwahaniaethau cymdeithasol rhwng y rhywiau yng Nghymru'. Yn sicr y mae'r gyfrol dan sylw yn cyflawni'r nod hwn ac ar yr un pryd y mae'n taflu goleuni newydd ar hanes llenyddiaeth Cymru ar ddiwedd y bedwaredd ganrif ar bymtheg a dechrau'r ugeinfed ganrif. Llwydda Rosanne Reeves i greu darluniau gafaelgar o'r ddwy awdures a'u bywydau cyffrous ac ar yr un pryd cynigia ddadansoddiad trylwyr o'u cyfraniad at y dadleuon cyfoes ynglŷn â safle'r ferch yn y gymdeithas. Yn fwy na hynny, drwy ganolbwyntio ar waith a gweithgarwch dwy awdures amlwg iawn yn eu dydd ond sydd bellach wedi eu hanghofio, y mae'r llyfr yn gwneud i ni ailystyried cysyniadau ynghylch hunaniaeth genedlaethol, grefyddol ac ieithyddol yn y cyfnod chwyldroadol hwn. Er bod y llyfr yn deillio o draethawd PhD, y mae'n hynod ddarllenadwy ar gyfer cynulleidfa lengar Gymraeg. Nid yw ysgolheictod trylwyr Rosanne Reeves yn amharu dim ar ei dawn dweud. Wrth nodi hynny, rhaid ychwanegu bod y gyfrol yn gaffaeliad gwerthfawr iawn ar gyfer myfyrwyr a beirniaid yn y maes, fel y mae'r llyfryddiaeth gynhwysfawr yn arddangos. Y mae'r gyfrol o ddiddordeb i'r rhai sy'n ymddiddori yn llenyddiaeth ein gwlad yn y Saesneg yn ogystal â'r Gymraeg ac yn gyfraniad nodedig i'r prosiect sy'n cael ei lywio gan do bychan o feirniaid i adolygu'r hanes arferol sy'n cael ei adrodd a'i ddysgu am ein traddodiad llenyddol. Gwir a ddywed Rosanne Reeves ar ddiwedd ei chyfrol, gan ddyfynnu geiriau Hywel Teifi Edwards: 'heb "wybod ein stori" ni ellir amgyffred y syniad o genedl. [Y mae Gwyneth Vaughan a Sara Maria Saunders] . . . drwy eu hymrwymiad, eu gweledigaeth a'u dyfalbarhad nid yn unig yn rhan allweddol o'r stori honno, ond hefyd wedi cyfrannu at ei chreadigaeth' (t. 180). Pwy oedd y ddwy Gymraes hyn, felly? Y mae wynebau'r ddwy yn syllu arnom o glawr hardd y llyfr, y naill yn ei gwisg dderwyddol â lled-wên chwareus ar ei gwefusau, a'r llall yn edrych yn ddwys ac yn ddifrifol, a'i llygaid yn pefrio arnom yn anesmwythol. Gwyneth Vaughan yw'r naill a Sara Maria Saunders yw'r llall; ac y mae'r lluniau'n nwyfus ac yn hynod o gyfoes eu golwg, fel petasai'r awduresau anghofiedig hyn yn dal i fyw yn ein plith heddiw. Merch i felinydd a'i wraig o Dalsarnau, Meirionnydd oedd Annie Harriet Jones a gymerodd yr enw 'Gwyneth Vaughan' pan ddechreuodd lenydda. Cafodd ei geni yn 1852 ac felly rai blynyddoedd yn rhy gynnar iddi fedru elwa o'r cyfleoedd a ddaeth tua diwedd y ganrif i ferched gael addysg uwch. Felly, er ei bod yn sicr yn berson ag uchelgais deallusol, ei ffawd oedd cael ei phrentisio i hetwraig a gweithio'n ddiweddarach mewn siop. Yna, ymbriodododd â mab y siop a symud gydag ef i Lundain, lle'r oedd ef yn astudio meddygaeth yn Ysbyty St Barts. Yno, yn y brifddinas, dechreuodd Gwyneth Vaughan ar ei gyrfa fel awdures doreithiog. Ar y dechrau, ysgrifennodd erthyglau yn y Saesneg ar gyfer y wasg yn Lloegr, yn trafod ystod eang o bynciau llosg y dydd. Ar ôl i'r teulu ddychwelyd i Gymru (ac ar ôl iddi roi genedigaeth i bedwar o blant) cafodd ryw fath o dröedigaeth ddiwylliannol a phenderfynu llenydda dim ond yn ei mamiaith, y Gymraeg. Straeon byrion a nofelau oedd cynnyrch pin y newydd-anedig 'Gwyneth Vaughan' yn awr, ac o'r dechrau gwelwyd bod yr awdures ar dân i ddweud ei stori—stori am

fenywod cryfion cefn-gwlad Cymru, am annhegwch cymdeithas lle'r oedd y werin o dan orthrwm tirfeddianwyr barus, am dwptra Dic-Siôn-Dafyddion niferus y Gymru gyfoes, ac am gyfoeth hanes iaith a diwylliant Cymreig. Yn ôl Rosanne Reeves, yr oedd nofel gyntaf Vaughan, O Gorlannau y Defaid (1905), yn 'garreg filltir yn hanes ffuglen y Gymraes' (t. 74) ac y mae'n mynd ymlaen i ganmol 'arbenigrwydd a gwreiddioldeb' ei hail nofel, Plant y Gorthrwm (1908). Wrth ailgloriannu gwaith Gwyneth Vaughan, y mae Rosanne Reeves yn cynnal dadl barhaus â neb llai na Thomas Parry, a ysgrifennodd 'werthfawrogiad' o Gwyneth Vaughan yn y 1970au a oedd yn ei bychanu a'i dibrisio. Yn hyn o beth, y mae Rosanne Reeves yn cyflawni camp ddewr ac angenrheidiol drwy herio doethineb cyffredin am hanes ein llên a'n gorfodi i agor ein llygaid ac ailystyried. Yr oedd Sara Maria Saunders ddeuddeg mlynedd yn iau na Gwyneth Vaughan ac yn dod o gefndir tra gwahanol. Cafodd ei geni yng Nghwrt Mawr, Llangeitho, ystad o ddwy fil o erwau; ond nid oedd ei theulu cefnog mor Seisnig â'r rhelyw o foneddigion Cymru, yn rhannol am eu bod yn Fethodistiaid pybyr. Priododd Sara Maria â gweinidog Methodistaidd, John Saunders (ei was priodas oedd Lodwig Lewis, tad Saunders Lewis). Fel Gwyneth Vaughan, yr oedd Sara Maria Saunders yn awdures ddwyieithog, ac y mae ei chynnyrch llenyddol yn cynnwys cyfrolau o straeon byrion megis Y Diwygiad ym Mhentre Alun (1907) a chyfresi mewn cylchgronau megis 'Slum Stories: From the Diary of Martha Jones' (1910). Yn annhebyg i Gwyneth Vaughan, ysgrifennodd yn y ddwy iaith drwy gydol ei gyrfa. Uchelgais cynnar S. M. Saunders oedd bod yn genhades; yn wir, treuliodd lawer iawn o'i hamser a'i hegni yn codi arian tuag at y genhadaeth dramor. Er na wireddwyd ei breuddwyd yn llythrennol, y mae modd ystyried ei chynnyrch llenyddol yn rhyw fath o genadwri amgen. Ond nid oes arlliw o bregethu surbwch yn ei gwaith. Y peth rhyfeddol am storïau S. M. Saunders yw eu bod yn ffres ac yn ddoniol, yn gorlifo â ffraethineb a chymeriadau cofiadwy. Yn debyg i Daniel Owen (ac y mae safon uchel gwaith Sara Maria Saunders yn cyfiawnhau'r fath gymhariaeth) y mae'n llwyddo i ddychanu'r gymdeithas Fethodistaidd yr oedd hi'n rhan ohoni mewn modd cywrain a chytbwys. Fel y mae Rosanne Reeves yn dangos, y mae ei heironi cynnil yn gwrthgyferbynnu'n llwyr nid yn unig â chriau angerddol Gwyneth Vaughan yn erbyn anghyfiawnder ond hefyd â dychan fileinig Caradoc Evans yn ei gyfrol arloesol, My People. Yn negawdau olaf y bedwaredd ganrif ar bymtheg, felly, yr oedd Gwyneth Vaughan a Sara Maria Saunders yn ddwy o'r dwsinau o awduresau a ddaeth 'allan o'u hogofau' (chwedl Jane Aaron) i gyfrannu at ddwy lenyddiaeth Cymru. Y mae'r gyfrol hon yn cynnig cyflwyniad arbennig i fywydau a gwaith y ddwy ac yn gwneud i ni synnu bod dwy 'Ddynes Newydd' mor wahanol i'w gilydd wedi dod i'r amlwg a chynhyrchu gwaith llenyddol mor amrywiol mewn cyfnod sy'n cael ei ystyried yn gyffredinol yn deyrnas y Beirdd barfog Newydd.

Caerdydd, Katie Gramich

[Book review in *Llên Cymru*, vol. 38, no. 1 (June, 2015) pp. 106-108. Adolygiad yn *Llên Cymru*, cyf. 38, rhif 1 (Mehefin, 2015) tt. 106-108].